

CYNLLUN RHEOLI ADNODDAU DŴR DRAFFT 2024

Crynodeb Annhechnegol

**RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP**



severn dee

Ynglŷn â'r ddogfen hon	4
Cael eich barn chi	5
Ynglŷn â Hafren Dyfrdwy	6
O le y cawn ein dŵr	8
Lle rydym yn cyflenwi dŵr – ein Parthau Adnoddau Dŵr (WRZs)	8
Beth yw Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr?	9
Cynnydd gyferbyn â Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr19	9
Gweithio ag eraill	10
Beth yw'r heriau a wynebwn?	11
Her 1 – yr argyfwng hinsawdd	12
Her 2 – yr argyfwng natur	12
Her 3 – poblogaeth a galw	13
Her 4 – lleihau gollyngiadau	14
Her 5 – cyflawni gwerth gorau i gwsmeriaid	14
Yr hyn rydym wedi'i ddysgu oddi wrth gwsmeriaid a rhanddeiliaid hyd yn hyn	15
Rydym wedi gofyn barn cwsmeriaid	15
Ein Rhanddeiliaid	15
Allbynnau o Ymchwil Cwsmeriaid	16
Yr hyn y bwriadwn ei wneud	17
Adnoddau dŵr	18
Gwerth gorau i gwsmeriaid	19
Argyfwng hinsawdd	20
Argyfwng natur	21
Trwsio gollyngiadau	22
Poblogaeth a galw am ddŵr	22
Ein cynllun ar gyfer ein parthau adnoddau dŵr	23
Parth Adnoddau Dŵr Saltney	24
Parth Adnoddau Dŵr Wreccsam	25
Parth Adnoddau Dŵr Llanfyllin	26
Parth Adnoddau Dŵr Llandinam a Llanwrin	27



YNGLŶN Â'R DDOGFEN HON

Mae hwn yn grynodeb annhechnegol o'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft (dWRMP) ar gyfer 2024. Fe'i cynlluniwyd i roi golwg ichi o'r heriau sy'n wynebu'ch cyflenwad dŵr a'r gweithredoedd y bwriadwn eu gwneud o ganlyniad.

Mae'r prif gynllun yn cynnwys llawer mwy o fanylion, yn cynnwys yr wybodaeth lawn y gwnaethom ei defnyddio wrth ddod i'n penderfyniadau, a'r gwahanol opsiynau y gwnaethom eu hystyried. Gallwch ganfod y prif gynllun [yma](#).

CAEL EICH BARN CHI

Mae'r crynodeb hwn yn rhan o'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft fydd yn y pen draw yn diweddarau'r cynllun y gwnaethom ei gyhoeddi yn 2019. Mae'n ddrafft oherwydd y mae arnom eisiau i gwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill adael inni wybod beth maent yn ei feddwl o'n cynllun.

Croesawn eich adborth am y cynllun drafft hwn, yn neilltuol:

- A ydych yn cefnogi'n cynllun drafft?
- A gytunwch fod ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft yn cynrychioli dehongliad teg o ganllawiau'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr, fel y'u hamlinellir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a'u bod yn ategu polisiau ac uchelgais Llywodraeth Cymru, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Strategaeth Ddŵr i Gymru?
- A gytunwch â'n blaenoriaethau a'n cyflymder strategol?
- A gytunwch fod y senarios cynllunio a ddefnyddir yn cynrychioli asesiad teg o'r dyfodol tebygol?
- A gytunwch y dylem roi mwy o bwyslais ar Glas/Gwyrdd (datrysiadau a seilir ar natur) a'r defnydd o weithgareddau partneriaeth i ddatrys heriau'r dyfodol yn hytrach na chodiadau mwy traddodiadol mewn cynhwysedd asedau?
- A gytunwch â'n hymagwedd tuag at ddiogelu'n hamgylchedd ledled ein hardaloedd ac yn y mannau lle y tynnwn ddŵr?
- Sut y byddai'n amgenach gennych inni ymgysylltu â chi yn y dyfodol?

Gallwch rannu'ch adborth drwy anfon e-bost at water@gov.wales, fydd yn coladu ac yn rhannu'r holl adborth â ni.

YNGLŶN Â HAFREN DYFRDWY

Rydym yn un o 11 o gwmnïau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr, a darparwn wasanaethau dŵr i Ganolbarth a Gogledd-ddwyrain Cymru.

Rydym yn falch o gynorthwyo'n cwsmeriaid â gwasanaethau dŵr sydd ymysg y gorau yn y byd am bris fforddiadwy. Credwn ei bod hi'n bwysig ein bod yn rhoi'n cwsmeriaid – a'r manau lle maent yn byw – wrth graidd yr hyn a wnawn.

Dyma rai ffeithiau allweddol amdanom:

Cyflenwi tua 61 miliwn litr o ddŵr yfed glân bob diwrnod.

Un o'r un ar ddeg o gwmnïau dŵr a dŵr gwastraff rheoledig yng Nghymru a Lloegr.

Gwasanaethu dros 100,000 o aelwydydd a busnesau.

Bil cyfartalog o lai na £1 y dydd, yr isaf yng Nghymru (a Lloegr).

Cynnal dros 3,000km o brif bibellau dŵr a charthffosydd.

Rydym yn gwella bioamrywiaeth drwy fentrau newydd i reoli dalgylchoedd.


Ein strategaeth hirdymor fydd lleihau gollyngiadau 50% erbyn 2050 a helpu'n cwsmeriaid i leihau'r galw am ddŵr.



O LE Y CAWN EIN DŴR

Cawn ein dŵr o'r amgylchedd – o afonydd (61%), dyfrdyllau (30%) a'r gweddill o gronfeydd dŵr a tharddellau bychain o'r ucheldiroedd.


Gwneir y dŵr yn dda i'w yfed yn un o'n pum gwaith trin dŵr cyn ei fod yn teithio drwy rwydwaith o bibelli i'ch tapiau.



LLE RYDYM YN CYFLENWI DŴR - EIN PARTHAU ADNODDAU DŴR (WRZS)

Mae pob un Parth Adnoddau Dŵr yn cwmpasu'r ardal fwyaf lle mae'r holl gwsmeriaid i bob diben yn cael eu dŵr o'r un ffynhonnell, ac yr effeithid yn union yn yr un modd arnynt petaem yn gorfod cyfyngu ar ddefnydd dŵr.

Mae ein hardal gyflenwi'n ymestyn o Wrecsam yn y gogledd i Lanidloes yn y de.



BETH YW CYNLLUN RHEOLI ADNODDAU DŴR (WRMP)?

Mae'n bwysig fod gennym gynllun ar waith i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael cyflenwad dibynadwy o ddŵr yn y dyfodol. Dros amser, mae pethau'n newid; er enghraifft, gallem ganfod yr effeithir ar ein ffynonellau dŵr gan newid yn yr hinsawdd neu fod y ffordd y mae pobl yn defnyddio dŵr yn ein hardal yn newid.

Mae ar bob cwmni dŵr yng Nghymru angen cyhoeddi'u cynlluniau bob pum mlynedd. Hwn fydd ein hail Gynllun Rheoli Adnoddau Dŵr – gwnaethom baratoi'n cynllun cyntaf yn 2019, yn o fuan ar ôl i Hafren Dyfrdwy gael ei ffurfio.

Mae ein cynllun yn darparu asesiad o sut mae ein system ddŵr yn perfformio yn awr ac yn y dyfodol drwy:

- Amcangyfrif faint o ddŵr y gallwn ei ddarparu (cyflenwad) a faint o ddŵr y bydd ar ein cwsmeriaid ei angen (galw) dros o leiaf y 25 mlynedd nesaf;
- Sicrhau y gall ein cyflenwad ateb y galw bob amser yn wyneb newid yn yr hinsawdd, yr angen i wneud mwy dros yr amgylchedd, a symudiadau mewn poblogaeth, a;
- Asesu p'un a ydym yn gallu diwallu anghenion ein cwsmeriaid yn ystod sychder – pan fo galw ar ei uchaf – gan ddal i ddiogelu'r amgylchedd.

Er mai'r cyfnod lleiaf y mae arnom angen cynllunio ar ei gyfer yw 25 mlynedd, rydym wedi dewis edrych ymhellach ymlaen – yr holl ffordd i 2085 – i'n helpu i ddeall a pharatoi ar gyfer effeithiau dichonol newid yn yr hinsawdd.

CYNNYDD GYFERBYN Â CHYNLLUN RHEOLI ADNODDAU DŴR19

Ni chynigiwyd opsiynau cyflenwi yn ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diwethaf a gyhoeddwyd yn 2019.

Roedd ein strategaeth yn cynnwys lleihau gollyngiadau a rheoli galw, gan ganolbwyntio ar leihau defnydd dŵr aelwydydd.

Parhawn i wneud cynnydd yn y meysydd hyn.

Gollyngiadau: Yn 2020/21, rhoesom wybod am 6.6% o leihad, ac rydym o fewn yr amserlen i gyflawni 15% erbyn 2025. Rydym wedi sicrhau Arian Arloesi gan Ofwat i archwilio'r defnydd o rwydweithiau ffibr i ganfod gollyngiadau, mewn partneriaeth â Dŵr Cymru.

Defnydd dŵr aelwydydd: Effeithiodd pandemig yr haint COVID-19 ar faint o ddŵr y mae'n cwsmeriaid yn ei ddefnyddio. Yn 2020/21, adroddasom am gynnydd o 4.5% ar y cyfartaledd dros y tair blynedd o ddefnydd y pen (faint o ddŵr y mae pob person yn ei ddefnyddio yn y cartref), gan adlewyrchu mwy o ddefnydd o ddŵr ar gyfer golchi a glanhau, a'r gogwydd tuag at fwy o bobl yn gweithio o'u cartref. Parhawn i gynnig cynnyrch arbed dŵr, archwiliadau arbed dŵr yn y cartref a'n rhaglen addysg mewn ysgolion.

GWEITHIO AG ERAILL

Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr yn Lloegr yn awr gydweithio'n rhanbarthol. Nid yw hyn yn ofyniad yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod Hafren Dyfrdwy yn berchennog asedau ac yn rhannu adnoddau â chwmnïau yn Lloegr, mae gennym rôl anhepgor mewn sicrhau y caiff dalgylchoedd Hafren Uchaf a Dyfrdwy eu cynrychioli'n dda, ac felly rydym wedi bod yn gysylltiedig iawn â grŵp rhanbarthol Water Resources West (WRW).

Ers i WRW gael ei ffurfio, rydym wedi gweithio'n agos â'r aelodau craidd, yn cysoni dulliau ac ymagweddau, lle y bo'n briodol, ac yn rhannu data a gwybodaeth. Ar ôl adborth yn ystod yr ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid, daethom yn aelodau craidd ym mis Mai, 2022. Credwn y bydd hyn yn helpu i roi gwell cynrychiolaeth i ddalgylchoedd Hafren Uchaf a Dyfrdwy yn y cynllun rhanbarthol.

Mae yna gysoni uniongyrchol rhwng ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft ni a chynllun rhanbarthol drafft Water Resources West, a gyhoeddwyd ar yr un pryd.

Rydym eisoes wedi dechrau siarad â phobl am ein cynlluniau. Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am hyn mewn adrannau diweddarach.

BETH YW'R HERIAU A WYNEBWN?

Pan edrychwn i'r dyfodol, mae arnom angen meddwl am yr hyn a allai ddigwydd i effeithio ar naill ai:

- Cyflenwad - cael dŵr crai o gronfeydd dŵr ac afonydd, ei wneud yn lân ac yn ddiogel i'w yfed, a'i anfon drwy bibelli i gwsmeriaid; a
- Galw – y nifer o bobl yn ein hardal ni o Gymru a sut maent yn defnyddio dŵr yn eu cartrefi a'u busnesau.

Rydym wedi amlygu'r heriau allweddol a wynebwn yn yr ychydig adrannau nesaf.

HER 1 - YR ARGYFWNG HINSAWDD

Gwelwn dueddiad tuag at hafau poethach, sychach, a gaeafau cynhesach, gwlypach ledled Cymru:

- Cynyddodd tymereddau cyfartalog blynyddol 0.9° C o ganol yr 1970au i ganol y 2010au, gyda mwy o gofnodion yn cael eu torri (e.e., yn ystod poethdon 2022, cyrhaeddodd tymereddau 37°C).
- Mae glaw cymedrig blynyddol wedi cynyddu 2%, o 1402mm yng nghanol yr 1970au i 1430mm yng nghanol y 2010au.
- Mae oriau heulwen wedi cynyddu 6.1% rhwng canol yr 1970au a chanol y 2010au.

Gan edrych ymhellach i'r dyfodol, mae rhagolygon yn awgrymu mwy o newidiadau eithafol yn y blynyddoedd i ddod:

	2050au	2080au
Tymheredd Blynyddol (°C)	+1.1	+2.3
Glaw Haf (%)	-15	-26
Glaw Gaeaf (%)	+5	+13

Oni bai ein bod yn addasu i'r newidiadau hyn mewn modd amserol, gallem ddechrau profi cyfnodau o brinder dŵr yn y dyfodol, fydd yn effeithio ar deuluoedd a busnesau. Mae ein cynlluniau hirdymor yn cymryd i ystyriaeth y tebygolrwydd o effeithiau ehangach ar yr hinsawdd a'r effeithiau y gallai'r rhain eu cael ar gyflenwad dŵr. Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru, rydym wedi defnyddio effaith uwch o ran newid yn yr hinsawdd o 4°C o gynhesu wrth ddatblygu'n cynlluniau.

HER 2 - YR ARGYFWNG NATUR

Mae arnom angen sicrhau nad yw'n rhanbarth, ac yn neilltuol yr ardaloedd hynny o le y cymerwn ddŵr, yn cael eu difrodi gan yr hyn a wnawn. Mae yna ddyletswydd arnom o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth - yr amgylchedd byw - lle y gweithredwn.

Mae ein hardal gyflenwi'n croesi pedair sir - Powys, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam - y cyfan â'u tirweddau, eu cymunedau a'u gwerth naturiol unigryw eu hunain. Gwasanaethwn ardal gymharol fechan o Gymru, ond mae 60% o'r ardal honno ar dir a ddiogelir fel naill ai Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) neu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC). Cymerwn ein rôl o ddiogelu ac o wella'r ardaloedd hyn yn awr ac i'r dyfodol o ddifri'.

HER 3 – POBLOGAETH A GALW

Mae arnom angen sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cyflenwad dibynadwy o ddŵr i'n cwsmeriaid. Yn amlwg, mae arnom angen meddwl am y nifer o bobl sy'n defnyddio dŵr - a sut maent yn ei ddefnyddio - yn y blynyddoedd i ddod. Yn ein hardal ni, ni ddisgwylir y bydd twf yn y boblogaeth yn gosod straen sylweddol ar rwydweithiau cyflenwi dŵr dros y degawdau i ddod.

Yn y cyfnod ar ôl llacio rheolau cyfyngiadau symud COVID, mae defnydd dŵr aelwydydd wedi gostwng o lefelau 2020/21. Fodd bynnag, mae'n parhau'n uchel o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig. Mae'n dal yn ansicr beth yw 'normal newydd', ac mae hyn yn rhoi her ar gyfer y dyfodol.

Yr hyn rydym yn ei wybod yw bod y ffordd y mae pobl yn byw ac yn gweithio yn newid. Mae mwy o bobl yn dewis gweithio o'u cartref neu'n nes at eu cartref. Ategir hyn gan strategaeth Llywodraeth

Cymru sydd â'r nod o gael 30% o boblogaeth Cymru i fabwysiadu'r ffordd hon o weithio. Mae gan hyn y potensial i effeithio ar faint o ddŵr y mae pob un person yn ei ddefnyddio yn eu cartref, a gall newid faint o ddŵr y bydd rhai busnesau'n ei ddefnyddio, hefyd.

Mae lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir gan bob un cwsmer yn golygu ein bod mewn gwell sefyllfa i ymdopi â heriau'r dyfodol i'n cyflenwad. Mae hefyd yn golygu y gallwn wneud mwy i ddiogelu'r ardaloedd y cymerwn ddŵr ohonynt.



HER 4 – LLEIHOU GOLLYNGIADAU

Mae lleihau gollyngiadau o'n rhwydweithiau yn golygu y gallwn adael mwy o ddŵr yn yr amgylchedd, bod o fudd i natur a defnyddio llai o ynni i'w gyflenwi i gwsmeriaid drwy'n rhwydwaith o bibelli.

Bwriadwn leihau gollyngiadau am nifer o resymau eraill:

- Dywed ein cwsmeriaid wrthym eu bod yn credu y caiff gormod o ddŵr ei golli drwy ollyngiadau;
- Rhoddodd Ofwat a rhanddeiliaid allweddol eraill neges eglur i'r diwydiant dŵr eu bod yn disgwyl gweld rhaglenni uchelgeisiol ac arloesol i leihau gollyngiadau;
- Byddai arnom angen trin llai o ddŵr i'w roi yn y cyflenwad, gan leihau'n defnydd o ynni ar gyfer pwmpio a thrwy'r broses drin, a lleihau'n hôl troed carbon; a
- Bydd cymryd llai o ddŵr i'w drin a'i roi yn y cyflenwad yn gadael mwy yn y byd natur, gan helpu i wella'r amgylchedd dyfrol.

HER 5 – CYFLAWNI GWERTH GORAU I GWSMERIAID

Rydym yn ystyriol o'r argyfwng costau byw cyfredol sy'n effeithio ar bobl. Golyga hyn fod arnom angen gwireddu'n hymrwymiaidau craidd mor effeithlon ag y bo modd, a sicrhau bod unrhyw wariant ychwanegol yn gymesur ac yn fforddiadwy. Byddwn bob amser yn chwilio am ffyrdd i wneud pethau sy'n ychwanegu gwerth (megis gwella bioamrywiaeth) tra ein bod yn gwneud ein swyddogaethau craidd, fydd yn ein helpu i gyflawni cynllun gwerth gorau.

Ar hyn o bryd, gan ein cwsmeriaid ni y mae'r bil dŵr isaf yng Nghymru, a byddwn yn sicrhau y caiff unrhyw fuddsoddiad ychwanegol ei gyfiawnhau wrth inni gyflwyno'n cynllun busnes i Ofwat.



YR HYN RYDYM WEDI'I DDYSGU ODDI WRTH GWSMERIAID A RHANDDEILIAID ERAILL HYD YN HYN?

RYDYM EISOES WEDI GOFYN BARN CWSMERIAID

Credwn ei bod hi'n bwysig cael barn cwsmeriaid pan ydym yn gwneud cynlluniau fydd yn effeithio arnynt. Rydym wedi treulio llawer o amser yn niwedd 2021 ac yn nechrau 2022 yn siarad â chwsmeriaid i ddeall beth sy'n bwysig iddynt ac ymhle y credant y dylem ganolbwyntio'n hymdrechion.

Holasom gwsmeriaid hefyd am sut y dylem flaenoriaethu buddsoddiad. Crynhoir eu barnau ar y dudalen nesaf.

RHANDDEILIAID ERAILL

Yn ogystal â'n cwsmeriaid, siaradasom â nifer fawr o sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol i gofyn eu barn tra oeddem yn datblygu'r cynllun hwn. Roedd y rhain yn cynnwys Ofwat, Cadw a chyflenwyr dŵr eraill.

Rydym wedi gweithio'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ymgynghori drwy gydol datblygiad ein cynllun.

Gwnaethom ymgorffori'u hadborth wrth ddatblygu'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr drafft, a chrosawn ragor o adborth gan bob rhanddeiliad a chwsmer am ein cynllun drafft.

ALLBYNNAU ODDI WRTH YMCHWIL CWSMERIAID A WNAED YNG NGWANWYN 2022

Blaenoriaeth
uchaf ar gyfer
buddsoddiad.



Ar hyn o bryd, caiff tua 22% o'r holl ddŵr a rown i mewn yn y rhwydwaith ei golli drwy ollyngiadau.

Roedd llawer o gwsmeriaid yn siomedig o ddod i ddeall hyn, ac roeddynt yn teimlo y dylai fod yn flaenoriaeth inni roi sylw iddo, er gwaethaf y ffaith nad yw'n creu risg i gyflenwadau dŵr.



Gofynnem i gwsmeriaid sut y gallem ddylanwadu ar bobl i fod yn fwy effeithlon ynglŷn â sut y maent yn defnyddio dŵr yn eu cartrefi a'u busnesau.

Rydym wedi gosod targed caled i ni'n hunain i leihau faint o ddŵr y mae pob person yn ei ddefnyddio. Bydd arnom angen buddsoddi mewn addysg a chynnyrch arbed dŵr i helpu pobl newid eu hymddygiad.



Mae gan tua 60% o gartrefi yn ein hardal fesuryddion dŵr. Gwelir mesuryddion deallus fel ffordd o reoli defnyddio dŵr gan eu bod yn darparu data wedi'i bersonoli, fel y gall pobl weld faint y maent yn ei ddefnyddio.

Mynegodd cwsmeriaid farnau cymysg am fesuryddion deallus – tra gallai rhai weld y buddion, nid oedd eraill yn sicr. Yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, ni chredwn fod mesuryddion deallus yn flaenoriaeth i'n cwsmeriaid.



Holasom gwsmeriaid am waharddiadau dros dro ar ddefnydd, a adwaenir hefyd fel gwaharddiadau ar bibelli dŵr. Mae ein cronfeydd dŵr a'n ffynonellau eraill o ddŵr yn ddigon mawr fel ein bod ond yn disgwyl bod angen gwaharddiad ar bibell dŵr unwaith bob 40 mlynedd. Dywedodd y rhan fwyaf o gwsmeriaid wrthym eu bod yn eitha' hamddenol ynglŷn â'r amledd hwn ac nad oedd arnom angen newid lefelau'n gwasanaeth yn y maes hwn.

Blaenoriaeth
isaf ar gyfer
buddsoddiad.



Mae gennym warged o gyflenwad ymhob parth. Fodd bynnag, dim digon i ddarparu trosglwyddiad ymarferol o ddŵr i'n cwmnïau cyfagos ar hyn o bryd. Byddwn yn adolygu hyn yn rheolaidd.

Er nad oedd gan y rhan fwyaf o gwsmeriaid y gwnaethom siarad â nhw wrthwynebiadau mewn egwyddor i drosglwyddo dŵr allan o'n hardal petai gennym warged, gwyddom fod hwn yn bwnc sensitif a chanddo hanes cymhleth. Byddem ond yn cytuno ag unrhyw gynlluniau neu gynigion fyddai'n dod â budd lles sylweddol i'n cwsmeriaid a'n cymunedau ac na fyddent yn difrodi'r amgylchedd.



Mae yna tua 15,000 o eiddo yng nghefn gwlad Powys a chanddynt eu cyflenwadau dŵr preifat eu hunain. Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai cwmnïau feddwl am ba gymorth y gallant ei roi i'r cwsmeriaid hyn yn ystod adegau o sychder.

Pan ofynnem i gwsmeriaid am hyn, gwnaethant ddweud nad hyn oedd y flaenoriaeth uchaf iddynt, ond serch hynny y dylem gynorthwyo'r cymunedau hyn â chyflenwadau eraill megis tanciau a modd o gael at gronfeydd dŵr i amaethwyr.

YR HYN Y BWRIADWN EI WNEUD

ADNODDAU DŴR

Cyhoeddasom ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cyntaf yn 2019 fel Hafren Dyfrdwy oedd newydd ei ffurfio. Roedd y cynllun yn cyfuno ardal Wrecsam (Dyffryn Dyfrdwy gynt) ac ardal Powys (Severn Trent gynt).

Creasom bedwar parth adnoddau dŵr newydd (WRZs) i gwmpasu'r ardaloedd lle rydym yn cyflenwi dŵr i gwsmeriaid. Mae parthau adnoddau dŵr yn ein helpu i reoli'n hadnoddau dŵr. Mae pob un yn cwmpasu'r ardal fwyaf lle mae'r holl gwsmeriaid i bob diben yn cael eu dŵr o'r un ffynhonnell neu garfan o ffynonellau, ac yr effeithid yn yr un modd arnynt petai'n rhaid inni weithredu gwaharddiad ar bibelli dŵr.

Ar ôl canllawiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, gwnaethom edrych ar sut y gallai'n parthau adnoddau dŵr ymdopi ag ystod o sefyllfaoedd sychder, newid yn yr hinsawdd, a galw yn y dyfodol.

Hyd yn oed yn y sefyllfaoedd mwyaf eithafol, disgwyliwn gynnal gwarged ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. Golyga hyn y bydd faint o ddŵr sydd ar gael yn y senarios mwyaf difrifol o newid yn yr hinsawdd a sychder yn fwy na digon i ddiwallu anghenion galw'r dyfodol gan y boblogaeth sy'n newid a'r diwydiant sy'n tyfu yn ein hardal.

Parth Adnoddau DŴr	Ffynhonnell Fawr o DdŴr	Cydbwysedd cyflenwad yn erbyn galw (% o warged)	
		2025	2085
Wrecsam	Afon Dyfrdwy	8%	23%
Saltney	Mewnforio o Gaer	38%	49%
Llandinam	Dyfrdyllau lleol	22%	52%
Llanfyllin	Mewnforio o Amwythig	29%	54%

GWERTH GORAU I GWSMERIAID

Disgwylwn i'n cyflenwad dŵr barhau i fod â gwarged ledled ein hardal, sy'n golygu nad oes arnom angen gwneud unrhyw fuddsoddiad mewn ffynonellau dŵr newydd.

Mae hyn yn ein helpu i gadw biliau cwsmeriaid yn isel yn ystod yr argyfwng costau byw cyfredol.

Er nad oes angen buddsoddi mewn cynlluniau cyflenwi dŵr, cynigiwn:

- lleihau gollyngiadau 10% dros y 5 mlynedd nesaf a 50% dros y cyfnod hwy;
- datblygu ffyrdd arloesol o wella sut i arbed dŵr;
- cynorthwyo cwsmeriaid i ddefnyddio llai o ddŵr;
- parhau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd lleol.

Credwn fod gan yr ymagwedd hon lawer o fuddion, fel a ddangosir yn y tabl isod.

Mantais	Mesurau o ran y galw		Gwelliannau amgylcheddol
	Lleihau gollyngiadau	Mwy o effeithlonrwydd dŵr a rheoli galw	
Tynnu llai o ddŵr o'r amgylchedd	✓	✓	
Lleihau ôl troed carbon	✓ ✓	✓ ✓	✓ ✓ ✓
Gwella bioamrywiaeth			✓ ✓
Creu buddsoddiadau yn economi Cymru		✓ ✓ ✓	✓ ✓
Gwella cadernid cyflenwadau	✓		✓
Gwella ansawdd dŵr o fewn dalgylchoedd			✓ ✓
Helpu i gyflawni nodau lles eraill	✓	✓	✓ ✓

ARGYFWNG HINSAWDD

Er na fydd newid yn yr hinsawdd yn arwain at brinderau dŵr tan o leiaf 2085, mae arnom angen, serch hynny, gwneud ein rhan i helpu i leihau allyriadau.

Gwnaethom fabwysiadu Addewid Carbon Triphlyg yn 2019 i:

- cyflawni allyriadau carbon gweithredol sero net erbyn 2030;
- cynhyrchu neu brynu trydan sy'n 100% adnewyddadwy;
- trosi'n fflyd o gerbydau i fod yn 100% drydan erbyn 2030.

Mae gweithredoedd penodol rydym yn eu cymryd i wireddu'n haddewidion yn cynnwys:

- Lleihau allyriadau carbon drwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy;
- Adfer mawndir ar y tir rydym yn berchennog arno i ddal mwy o CO2 a gwella bioamrywiaeth;
- Gwella'n heffeithlonrwydd ynni i wrthbwysio galwadau cwsmeriaid yn y dyfodol a gofynion ansawdd triniaeth dŵr mwy llym;
- Cynyddu faint o ynni adnewyddadwy rydym yn ei brynu; a
- Datgarboneiddio'n fflyd o gerbydau ac annog gweithwyr i ddefnyddio ceir trydan carbon isel.



ARGYFWNG NATUR

Mae ein hamgylchedd naturiol yn bwysig i les ein gweithwyr, ein cymunedau lleol, a'n cwsmeriaid. Byddwn yn gwneud ein rhan yn y weledigaeth i greu gwell dyfodol i Gymru, drwy ymagwedd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Yn 2019, gwnaethom ymrwymo i gynyddu bioamrywiaeth drwy wella 450 hectar o'n tir erbyn 2025. Rydym yn falch o ddweud ein bod wedi cyflawni'r ymrwymiad hwn gydag:

- 80 hectar o fawndiroedd wedi'u hadfer a 410 hectar o gynefinoedd eraill wedi'u gwella ledled ein hystâd yn Llyn Efyrynwy - mewn partneriaeth ag RSPB Cymru; a
- 65 hectar o dir gwarchodfa natur wedi'i wella ger Wrecsam – mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Rydym hefyd wedi cynnal arolygon bioamrywiaeth yn ein safleoedd gweithredol mwyaf. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ein Strategaeth Bioamrywiaeth i gymell gwelliannau bioamrywiaeth ledled ein holl safleoedd.

Mae gweithredoedd eraill yn cynnwys y canlynol:

Ardal Canolbarth Cymru	Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru
Gweithio ag Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn i gyflawni'u prosiect 'Pathway for Pearls' o amgylch Y Trallwng, gan greu coridorau bywyd gwyllt ar gyfer y Glöyn Byw Brith Perlog a phryfed eraill.	Gweithio ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy ar brosiectau i wella seilwaith gwyrdd trefol a gwledig; er enghraifft, prosiect Tirwedd Fyw Stad Ddiwydiannol Wrecsam.
Cyflawni'n Haddewidion Afonydd i atal ein gweithfeydd carthion rhag difwyno afonydd.	Gweithio â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y gwaith o adeiladu ysgol bysgod yn Rhaeadr y Bedol (Safle Treftadaeth y Byd UNESCO) ger Llangollen.
Ehangu'n Profiad Ymwelwyr, llwybrau cerdded a chyfleoedd addysgol wrth ymyl Cronfeydd Dŵr Llyn Efyrynwy a Chlywedog.	Canfod cyfleoedd i adfer mawndir ac i roi hwb i gynefinoedd yn ein cronfeydd dŵr ym Mhendinas, Cyfynwy, Nant y Ffrith a Phenycæ.
Gyda'r Drenwydd Agored ac Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn, gwella'r llwybr cerdded rhwng Y Drenwydd a Gwarchodfa Natur Pwll Penarth.	Gyda grŵp Diogelu Dalgylch Dyfrdwy, canfod cyfleoedd i hyrwyddo arferion rheoli tir cynaliadwy ledled dalgylch Dyfrdwy; er enghraifft, drwy leihau defnyddio plaladdwyr a gwella rheoli maetholion.
Adolygu'n Cynllun Rheoli Coedwigaeth ar gyfer coedwig fasnachol stad Efyrynwy i gynnwys mwy o amrywiaeth o rywogaethau, niferoedd uwch o lydanddail brodorol a darnau o gynefin ffriddoedd.	

TRWSIO GOLLYNGIADAU

Rydym o fewn yr amserlen i leihau gollyngiadau 15% o 2019/20 i 2025, ond gwyddom fod arnom angen gwneud mwy. Ein nod felly yw lleihau gollyngiadau 50% yn gyfan gwbl o 2019/20 i 2050.

Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni'n nod o fod yn Sero Net Carbon erbyn 2030, gan y byddai arnom angen trin llai o ddŵr i'w roi yn y cyflenwad, gan leihau'r ynni a ddefnyddir ar gyfer pwmpio a'r broses o drin, a lleihau'n hól troed carbon. Bydd tynnu llai o ddŵr i'w drin a'i roi yn y cyflenwad yn gadael mwy o ddŵr ym myd natur, gan helpu i wella'r amgylchedd dyfrol.

Fel rhan o'n taith i haneru'r lefel gyfredol o ollyngiadau, cynigiwn ei leihau 10% rhwng 2025 a 2030.

Byddwn yn parhau â'n strategaeth gyfredol i leihau gollyngiadau drwy gymysgedd o reoli gollyngiadau gweithredol, rheoli pwysedd ac adnewyddu prif bibelli dŵr. Yn y cyfnod hwy, bydd arnom angen canfod gwell ffordd o leihau gollyngiadau o bibelli gwasanaeth y mae cwsmeriaid yn berchnogion arnynt (sydd ar hyn o bryd i gyfrif am tua chwarter yr holl ollyngiadau). Gall hyn olygu gweithredu mesuryddion deallus a bod yn berchennog ar y pibelli hyn fel y gallwn gyflymu'r raddfa y maent yn cael eu newid.

POBLOGAETH A GALW AM DDŴR

Mae ein cynllun yn darparu cyflenwad dibynadwy o ddŵr i'n cwsmeriaid cyfredol a'n cwsmeriaid yn y dyfodol. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng ychydig dros y 60 mlynedd nesaf yn ein hardal ni. Fodd bynnag, mae arnom, serch hynny, angen meddwl am arbed dŵr - sut mae pobl a busnesau'n defnyddio dŵr. Bydd defnyddio llai o ddŵr yn gwneud cyflenwadau hyd yn oed yn gadarnach, yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella'r amgylchedd.

Nid oes gennym gynlluniau i orfodi pob cwsmer i gael mesurydd dŵr. Y rheswm am hyn yw bod gennym warged dŵr, a dengys ymchwil o gwsmeriaid nad

oes yna fawr o awydd am fesuryddion i bawb. Efallai y byddwn yn cynnal treial cyfyngedig o dechnoleg mesuryddion deallus rhwng 2025 a 2030 i ddeall beth a allai weithio mewn ardaloedd gwledig yr ucheldir nad oes ganddynt fawr o fodd cael at bŵer a thelegyfathrebu. Byddwn yn parhau i gynnig y dewis i'n cwsmeriaid o drosglwyddo i fesurydd dŵr yn ddi-gost os dymunant.

Er nad oes gan gwmnïau yng Nghymru darged gan y llywodraeth parthed faint o ddŵr y mae pob person yn ei ddefnyddio, bwriadwn helpu cwsmeriaid i leihau defnydd dŵr o thua 140 i 118 litr y person y dydd fel rhan o'n cynllun dewisol drwy gymysgedd o addysg, darparu cyngor a chynnyrch arbed dŵr. Yn fanylach, yr elfennau o'n rhaglen effeithlonrwydd dŵr yw:

- Darparu dyfeisiadau arbed dŵr am ddim a chymorthdaledig i'n cwsmeriaid.
- Gwiriadau effeithlonrwydd dŵr ar gartrefi tai cymdeithasol – gweithio â chymdeithasau tai lle y byddwn yn cynnal asesiad o ddefnydd cyfredol o fewn eiddo cwsmeriaid, yn cynnwys:
 - Helpu cwsmeriaid i leihau'u defnydd o ddŵr drwy newidiadau syml mewn ymddygiad;
 - Gosod dyfeisiadau arbed dŵr;
 - Atgyweirio gollyngiadau ar osodiadau mewnlle mae'n syml gwneud hynny.
- Addysg Ysgolion - fel rhan o'n rhaglen addysg barhaus, ymwelwn ag ysgolion ledled y rhanbarth i siarad â disgyblion am ddŵr a sut i'w ddefnyddio'n ddoethach.
- Addysg gyffredinol i gwsmeriaid – cynyddu dealltwriaeth cwsmeriaid o effeithlonrwydd dŵr drwy gymysgedd o gyfathrebu uniongyrchol, negeseua, y cyfryngau a digwyddiadau.

I helpu i ymgysylltu â'n cwsmeriaid ac i hyrwyddo'n negeseuon arbed dŵr, byddwn hefyd yn datblygu cerbyd addysg gymunedol. Byddwn yn parhau i gynnig yr opsiwn o fesuryddion dŵr am ddim i'n cwsmeriaid, a byddwn yn parhau â'n strategaeth gynnal a chadw i newid hen fesuryddion neu fesuryddion sydd wedi torri yn rhagweithiol.

EIN CYNLLUN AR GYFER EIN PARTHAU ADNODDAU DŴR

Dyma fwy o fanylion am yr hyn y
bwriadwn ei wneud ym mhob un.

PARTH ADNODDAU DŴR SALTNEY

Saltney yw'r lleiaf o'n Parthau Adnoddau Dŵr. Mae'n rhychwantu'r ddwy ochr o Afon Dyfrdwy ac mae'n cynnwys Saltney a Bretton yn y gorllewin, a Sealand i'r cwr gogleddol.

Poblogaeth	12,530
Nifer o eiddo	6,120
Defnydd Cyfartalog Aelwydydd	111 Litr y person y dydd
Math o Gyflenwad	Mewnforio Swmp o Hafren Trent
A oes yna weithgaredd rheoli galw wedi'i gynllunio?	Oes, lleihau gollyngiadau 50% o lefelau 2019/20 erbyn 2050, gyda 10% o ostyngiad yn 2025 i 2030, a phrosiectau arbed dŵr.

GWAITH AMGYLCHEDDOL SYDD WEDI'I GYNLLUNIO

Byddwn yn canolbwyntio ar welliannau bioamrywiaeth a ddaw â buddion mewn ansawdd dŵr ac yn gwella cadernid ein ffynonellau dŵr. Fodd bynnag, nid oes gennym waith cyrchfan amgylcheddol sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y Parth Adnoddau Dŵr hwn.

Oherwydd bod y cyflenwad dŵr yn dod o fewnforio swmp o Severn Trent, nid ydym wedi nodi unrhyw angen neu weithred benodol yn y parth hwn. Byddwn yn parhau i weithio â Severn Trent i nodi unrhyw gyfleoedd i gyfrannu tuag at welliannau amgylcheddol sydd o fudd i'n cwsmeriaid.



PARTH ADNODDAU DŴR WRECSAM

Wrecsam yw'r mwyaf o'n Parthau Adnoddau Dŵr. Mae dinas Wrecsam yn cynnwys y boblogaeth fwyaf (tua 65,000 o bobl). Mae'r parth yn cynnwys Berwyn i'r cwr deheuol a threfi Y Waun a Llangollen. Allforiwn gyfaint bychan o ddŵr o barth Wrecsam i Severn Trent, gan gyflenwi rhannau o Gaer.

Poblogaeth	142,300
Nifer o eiddo	76,220
Defnydd Cyfartalog Aelwydydd	141 Litr y person y dydd
Math o Gyflenwady	River Dee, supported by reservoirs and Afon Dyfrdwy, a ategir gan gronfeydd dŵr a ffynhonnell dŵr daear fechan.
A oes yna weithgaredd rheoli galw wedi'i gynllunio?	Oes, lleihau gollyngiadau 50% o lefelau 2019/20 erbyn 2050, gyda 10% o ostyngiad yn 2025 i 2030, a phrosiectau arbed dŵr.

GWAITH AMGYLCHEDDOL SYDD WEDI'I GYNLLUNIO

Mae gan Afon Dyfrdwy a'i haber werth cadwraeth uchel, fe'i dynodir fel dwy Ardal Gadwraeth Arbennig (SAC), ac fe'i hysbysir fel tri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) ar wahân.

Mae Afon Dyfrdwy'n llifo drwy gymysgedd o dirweddau gwledig a threfol, ac mae mewn perygl oddi wrth ffynonellau llygredd amaethyddol a diwydiannol, fel ei gilydd.

Ein nod yw gweithio drwy Grŵp Diogelu Dalgylch Dyfrdwy i leihau risgiau oddi wrth y ffynonellau hyn. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau cynghori ar reoli tir a gweithgareddau ymarferol megis creu lleiniau clustogi wrth ochr yr afon, a gwella draenio ar ffermydd ac unedau diwydiannol.

Saif amryw o ffynonellau'n cronfeydd dŵr o fewn ucheldir Sir Ddinbych a Sir y Fflint, ac wedi'u hamgylchynu gan fawndiroedd a hen safleoedd mwynloddio. Gwelwn broblemau lliw, blas ac aroglau yn rheolaidd yn rhai o'r cronfeydd dŵr hyn, sy'n arwain at ddŵr sy'n ddrud ac yn anodd ei drin.

Byddwn yn gweithio ag AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy i adfer y cynefinoedd ucheldir yn nalgylchoedd y cronfeydd dŵr hyn, gan arafu llif y dŵr drwy'r dalgylch a lleihau dŵr ffo i mewn i'n cronfeydd dŵr. Bydd hyn yn cynnwys archwilio cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i gynefinoedd coedwigaeth a choetir fydd â buddion o ran bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr.

Byddwn hefyd yn gweithio â'r tîrfeddiannwr cyfagos wrth gronfa ddŵr Pendinas i atgyweirio'r ffrwd sy'n bwydo'r gronfa ddŵr, gan wella dal dŵr ac ansawdd dŵr.

PARTH ADNODDAU DŴR LLANFYLLIN

Mae Parth Adnoddau Dŵr Llanfyllin yn cynnwys nifer o gymunedau gwledig yn Sir Drefaldwyn. Lleolir tref Llanfyllin yng nghanol y parth. Mae trefydd eraill yn y parth yn cynnwys Llanfair Caereinion a Llangadfan tua'r de a Llansilin tua'r gogledd.

Poblogaeth	12,080
Nifer o eiddo	7,020
Defnydd Cyfartalog Aelwydydd	150 Litr y person y dydd
Math o Gyflenwad	Mewnforio Swmp o Severn Trent
A oes yna weithgaredd rheoli galw wedi'i gynllunio?	Oes, lleihau gollyngiadau 50% o lefelau 2019/20 erbyn 2050, gyda 10% o ostyngiad yn 2025 i 2030, a phrosiectau arbed dŵr.

GWAITH AMGYLCHEDDOL SYDD WEDI'I GYNLLUNIO

Ein prif ffocws yw gwelliannau bioamrywiaeth ledled stad Efyrynwy gan weithio mewn partneriaeth â'r RSPB. Daw'r rhain â buddion o ran ansawdd dŵr, a byddant yn gwella cadernid ein ffynonellau dŵr.

Bydd gwaith yn cynnwys adfer mawndir, glaswelltir a gwelliannau i gynefinoedd coetir a rheoli rhywogaethau goresgynnol. Bydd gan y rhain fuddion pellgyrhaeddol, yn cynnwys ansawdd dŵr a dal carbon.

Byddwn yn ceisio gweithio â'n tenantiaid ffermydd a thirfeddianwyr cyfagos i greu a gwella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau allweddol megis gylfinirod, cudyllod bach, hebogau tramor a gwyfynod cliradain Cymreig.



PARTH ADNODDAU DŴR LLANDINAM A LLANWRIN

Mae Llandinam a Llanwrin yn Barth Adnoddau Dŵr gwledig ym Mhowys. Mae'n cynnwys trefydd Y Trallwng i'r gogledd, Llanidloes i'r de, Machynlleth i'r gorllewin, a Threfaldwyn i'r dwyrain. Cyflenwir y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yn yr ardal hon gan ein tyniad dŵr dŵr daear mwyaf.

Poblogaeth	37,490
NuNifer o eiddo	22,590
Defnydd Cyfartalog Aelwydydd	179 Litr y person y dydd
Math o Gyflenwad	Tynnu dŵr dŵr daear
A oes yna weithgaredd rheoli galw wedi'i gynllunio?	Oes, lleihau gollyngiadau 50% o lefelau 2019/20 erbyn 2050, gyda 10% o ostyngiad yn 2025 i 2030, a phrosiectau arbed dŵr.

GWAITH AMGYLCHEDDOL SYDD WEDI'I GYNLLUNIO

Bydd ein ffocws eto ar ymchwiliadau lefel dalgylch a gwelliannau i fioamrywiaeth i ddod â buddion ansawdd dŵr a gwella cadernid ein ffynonellau dŵr.

Lleolir cronfa ddŵr Clywedog o fewn yr ardal hon, ac er nad ydym yn ei defnyddio fel ffynhonnell cyflenwi dŵr yfed i'n cwsmeriaid, y ni sydd berchen yr argae a'r ardaloedd o dir o'i hamgylch, yn cynnwys darnau bychain o goetir. Rhydd hyn gyfleoedd i blannu coed ychwanegol, yn ogystal â gwella'r profiad i ymwelwyr i gynyddu buddion lles.

Yn ychwanegol, mae yna gronfa ddŵr segur ger Machynlleth - Esgaireira - sydd eisoes ag ecosystem iach sydd wedi'i gwella ar ôl gostwng yr argae. Mae yna dystiolaeth o rywogaethau allweddol ar y safle, a bwriadwn ddatblygu rhagor arno i fod yn warchodfa natur leol.



Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig
Packsaddle
Ffordd Wrecsam
Rhostyllen
Wrecsam
Clwyd
LL14 4EH
hdcymru.co.uk

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP



severn dee